# Dylunio perllan

Mae'n bwysig cynllunio a dylunio perllan ar sail y safle a'r gofod sydd ar gael i chi. Mae perllan yn cynnwys o leiaf bum coeden sydd, unwaith y byddant wedi'u plannu, â'r potensial i fod yno am ganrif neu fwy. Mae hi felly'n hanfodol eich bod yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod gan bob coeden y cyfle gorau i ffynnu.

Y tri pheth pwysicaf i'w hystyried wrth gynllunio perllan yw:

- Pridd
- Lle
- Haul

Drwy ystyried y tri pheth yma, byddwch yn gallu dewis rhywogaeth y goeden ffrwythau sy'n fwyaf addas i'ch safle, sicrhau bod eich coed yn gynhyrchiol a darparu'r cynefin gorau posib.



## Pridd

Yn ddelfrydol, mae coed ffrwythau angen pridd priddgleiog â pH o 6, sydd wedi'i ddraenio'n dda ac nad yw wedi'i gywasgu. Gall goleddf bychan fod yn ddefnyddiol gan ei fod yn galluogi dŵr i ddraenio'n araf ac yn lleihau'r risg o erydiad pridd. Mae'r mwyafrif o goed ffrwythau angen dyfnder o 0.6 metr o leiaf yn y pridd, cyn cyrraedd unrhyw swbstrad solet megis creigiau. Mae hyn yn galluogi'r gwreiddiau i gyrraedd digon o ddyfnder i sefydlu'r goeden. Mae rhai rhywogaethau bychain sydd angen llai o ddyfnder yn y pridd.

Mae'n ddoeth paratoi'r pridd cyn plannu. Unwaith y byddwch yn gwybod pa fath o bridd ydyw, mae nifer o ffyrdd y gallwch ei wella, gan gynnwys ychwanegu deunydd organig (gweler ein Nodyn Gwybodaeth – Pridd, am fwy o wybodaeth), er yn y mwyafrif o achosion gall coed addasu i'r pridd sydd yno eisoes a ffurfio strwythurau gwreiddiau addas. Mae'n bwysig cofio y gellir gwella pridd yn barhaus dros amser. Gellir taenu tomwellt wrth waelod y goeden i wella'r maetholion yn y pridd, tra bod y gwreiddiau'n gwella gallu'r pridd i ddal a storio dŵr.



## Lle

Caiff y ffordd mae eich coed yn cael eu gosod ei phenderfynu i raddau helaeth gan siâp eich safle, y nodweddion sy'n bresennol a'u hagosatrwydd at goed neu wrychoedd eraill. Yn draddodiadol, caiff perllannau eu plannu ar ffurf grid, gyda rhesi o'r gogledd i'r de er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o olau'r haul.

Mae'n bwysig ystyried faint o le y bydd ei angen ar eich coed pan fyddant wedi tyfu'n llawn. Mae angen i chi sicrhau bod digon o le i osgoi cystadleuaeth rhwng gwreiddiau, yn ogystal â rhwng canopïau. Os yw'r rhain yn gorgyffwrdd yn ormodol, gall gael effaith ar dyfiant a lleihau cynhyrchiant ffrwythau. Dylech fod yn hael wrth gynllunio lle rhwng coed. Fel rheol, dylech adael cylch 3.5 metr o amgylch rhywogaethau bychain a chylch 7.5 metr o amgylch coeden ffrwythau o faint arferol. Mae'r gofod yma'n caniatáu i ddigon o olau gyrraedd y ddaear gan eich galluogi i blannu planhigion llai o amgylch y coed yn y dyfodol, er mwyn cynyddu bioamrywiaeth eich perllan.



## Haul

Mae angen golau haul uniongyrchol ar goed ffrwythau i dyfu'n dda a bod yn ffrwythlon. Yn ddelfrydol, mae coed ffrwythau angen 6 – 8 awr o olau haul y dydd. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o unrhyw fannau cysgodol ar y safle sydd gennych mewn golwg, gan gynnwys coed a allai dyfu'n fwy yn y dyfodol a chreu gormod o gysgod. Gall ymweld â'ch safle am hanner dydd pan mae'r haul ar ei uchaf eich helpu i weld y llefydd delfrydol i blannu eich coed. Os oes rhywfaint o gysgod ar eich safle arfaethedig, byddai rhywogaethau sydd angen llai o olau, fel coed afalau coginio, yn fwy addas.

## Geirfa

**Pridd heb ei gywasgu** – pridd meddal a rhydd heb ei gywasgu gan weithgareddau megis gyrru peiriannau drosto.

**Priddglai** – pridd bras sy'n cynnwys cyfran uchel o ddeunydd organig a chymysgedd o glai a thywod.

**Tomwellt** – deunydd (megis dail pwdr, rhisgl neu gompost) wedi ei daenu o amgylch neu dros blanhigyn i gyfoethogi neu inswleiddio'r pridd.

**pH pridd** – mesur o asidedd neu alcalinedd pridd. Mae rhai blanhigion yn ffynnu neu wedi'u haddasu ar gyfer lefelau pH gwahanol.

**Swbstrad** – mae'r sylweddau neu'r haenau mewn pridd yn cael eu galw'n swbstradau. Gall swbstrad solet fod yn haen o gerrig neu ro tanddaearol.

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** os gwelwch yn dda, neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**